Briff Ymchwil

# Talu am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Dadl a Diwygio

Awdur: **Stephen Boyce**

Dyddiad: **Mai 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Stephen Boyce**
Dyddiad: **Mai 2017**
Rhif Papur: **17-009**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6304**
: **Stephen.Boyce@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Talu am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Dadl a Diwygio

Mae'r briff ymchwil hwn yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer diwygio trefniadau codi tâl am ofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr.  Mae hefyd yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru o ran materion codi tâl, gan gynnwys y diwygiadau y mae wedi'u cyflwyno ers datganoli.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Codi tâl yng Nghymru ..... 1
   - Gofal amhreswyl ..... 1
   - Gofal preswyl ..... 1
3. Cynigion ar gyfer diwygio yng Nghymru a Lloegr ..... 2
   - Lloegr: Y Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth - 'Comisiwn Dilnot' ..... 2
   - Cynigion yng Nghymru ar gyfer talu am ofal ..... 3
   - Yr ymateb yng Nghymru i adroddiad Dilnot. ..... 3
   - Adroddiadau ymchwil LE Wales ar ddyfodol talu am ofal ..... 4
   - Adroddiad Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru 2015 ..... 4
4. Diwygiadau Llywodraeth Cymru: y pedwar Cynulliad cyntaf ..... 5
   - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: ..... 5
5. Diwygiadau Llywodraeth Cymru: y Pumed Cynulliad ..... 6

# 1. Cyflwyniad

Ers sefydlu'r wladwriaeth les ym Mhrydain yn y cyfnod ar ôl y rhyfeloedd, bu rhaniad cyfreithiol, gweinyddol ac ariannol rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu gan y GIG ac maent yn rhad ac am ddim i raddau helaeth pan fydd angen eu defnyddio; awdurdodau lleol sy'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl nad ydynt yn talu amdanynt yn breifat, er y gallant godi tâl amdanynt.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gall awdurdodau lleol godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am *ofal preswyl*, yn amodol ar asesiad o incwm a chyfalaf, gan gynnwys eiddo. Gallant hefyd godi tâl am *wasanaethau gofal amhreswyl*, sydd hefyd yn destun prawf modd. Mae'r trefniadau codi tâl yn debyg yng Nghymru a Lloegr, er bod gan Gymru brawf modd mwy hael, gan gynnwys cap ar daliadau am ofal amhreswyl.

Mae'r trefniadau ar gyfer talu am ofal cymdeithasol, yn arbennig y cydbwysedd rhwng cyfraniadau cyhoeddus ac unigol, wedi bod yn destun dadl ers tro, a bu cydnabyddiaeth gynyddol bod angen diwygio. Mae'r ffordd y codir tâl am ofal, yn enwedig gofal preswyl a all, mewn rhai amgylchiadau, olygu defnyddio gwerth cartref person i dalu amdano, yn cael ei ystyried yn annheg yn gyffredinol.

Mae talu am ofal cymdeithasol o gyllid cyhoeddus o dan bwysau wrth i gyllidebau awdurdodau lleol gael eu gwasgu ac wrth i ddarparwyr gofal (y mwyafrif ohonynt yn weithredwyr sector annibynnol neu breifat) wynebu heriau ariannol newydd, gan gynnwys **cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol** ym mis Ebrill 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o arian ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond bydd cynnal sector gofal cymdeithasol effeithiol a sefydlog a fydd yn gallu ateb y galw cynyddol yn gofyn am **adnoddau ychwanegol sylweddol** yn y tymor hwy.

# 2. Codi tâl yng Nghymru

## Gofal amhreswyl

Gall awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl neu, fel sy'n digwydd fwyfwy erbyn hyn, gellir eu comisiynu gan ddarparwyr yn y sector preifat neu'r trydydd sector. Gall gwasanaethau o'r fath gynnwys gofal cartref, gofal dydd neu brydau bwyd.

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o ran a ddylid codi tâl am y gwasanaethau hyn, er bod pob un ohonynt yn gwneud hynny. Mae cwmpas a lefelau unrhyw daliadau y maent yn eu codi yn cael eu cyfyngu gan y ddeddfwriaeth, yn benodol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Codir tâl wythnosol uchaf o £70 (2017-18) am wasanaethau gofal amhreswyl ac mae gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau hawl i gadw isafswm incwm. Mae terfyn cyfalaf o £24,000 hefyd yn berthnasol, ac nid oes disgwyl i unigolion sy'n berchen llai na hyn gyfrannu at gostau eu gofal amhreswyl o'u cyfalaf.

## Gofal preswyl

Mae gan awdurdodau lleol bellach ddisgresiwn ynghylch a ddylid codi tâl am wasanaethau gofal preswyl o dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*; yn flaenorol, roedd yn *ofynnol* i godi tâl am y gwasanaethau hyn o dan adran 22 o *Ddeddf Cymorth Gwladol 1948*.

Disgwylir i bobl sy'n mynd i ofal preswyl parhaol a drefnir gan eu hawdurdod lleol gyfrannu tuag at y gost o'u hincwm, er enghraifft, eu pensiwn, ac o'u hasedau.

Disgwylir i unrhyw un sydd â chyfalaf sy'n werth dros £30,000 (gan gynnwys gwerth unrhyw eiddo) (2017-18) dalu am gostau llawn ei ofal hyd nes bod ei gyfalaf yn mynd yn is na'r trothwy hwn. Felly,

mewn rhai achosion, bydd angen gwerthu eiddo i dalu ffioedd cartref gofal, oni bai bod perthynas agos yn dal i fyw yno. Er hynny, mae trefniadau talu wedi'u gohirio ar gael a fydd yn caniatáu i'r eiddo gael ei gadw hyd nes y bydd y person yn marw.

Ni waeth beth yw'r cyfraniad y mae unigolyn ei wneud tuag at gost ei ofal, mae gan holl breswylwyr cartrefi gofal yr hawl i gadw isafswm incwm, sef £27.50 yr wythnos ar hyn o bryd (2017-18).

Y GIG sy'n gyfrifol am dalu cost unrhyw ofal nyrsio a ddarperir gan nyrs gofrestredig i bobl mewn gofal preswyl. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r GIG yn talu'r gost lawn am ofal pan asesir bod anghenion y person yn gysylltiedig ag iechyd yn bennaf. Gelwir hyn yn **Ofal Iechyd Parhaus y GIG**.

# 3. Cynigion ar gyfer diwygio yng Nghymru a Lloegr

Mae cyfres o ymchwiliadau, comisiynau ac adroddiadau wedi edrych ar ariannu a chodi tâl am ofal cymdeithasol, gan gynnwys y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir (1999), ***Securing Good Care for Older People*** gan Syr Derek Wanless (2006), adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree ***Paying for long-term care: Moving forward*** (2006) ac **adroddiad** comisiwn Barker ar Ddyfodol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr (2014).

## Lloegr: Y Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth - 'Comisiwn Dilnot'

Yn dilyn etholiad cyffredinol 2010, sefydlodd Llywodraeth Glymblaid y DU gomisiwn i edrych yn fanwl ar y mater o dalu am ofal, o dan gadeiryddiaeth Andrew Dilnot. Lansiwyd y comisiwn ar 20 Gorffennaf 2010 a chyhoeddwyd ei **adroddiad** ar 4 Gorffennaf 2011. Er ei fod yn ymwneud yn bennaf ag ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Lloegr, bu argymhellion Dilnot yn ddylanwadol yng Nghymru ac maent wedi helpu i lywio'r drafodaeth yng Nghymru a Lloegr. Byddai gweithredu'r argymhellion yn Lloegr yn debygol o gael canlyniadau ariannol i Gymru.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

- Dylai uchafswm cyfraniad oes at gostau gofal cymdeithasol oedolyn, y byddai'n ofynnol i unrhyw unigolyn ei dalu, fod rhwng £25,000 a £50,000, gyda lefel a argymhellir o £35,000. Dylai'r rheini sydd â chostau gofal sy'n uwch na'r ffigur y cytunwyd arno fod yn gymwys ar gyfer cymorth llawn gan y wladwriaeth.
- Byddai'r cyfraddau a delir gan awdurdodau lleol am ofal preswyl yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer penderfynu pryd y bydd unigolyn wedi cyrraedd yr uchafswm. Hefyd, roedd Dilnot yn argymell na ddylai'r cap gynnwys 'costau byw cyffredinol' ar gyfer pobl sydd mewn gofal preswyl; amcangyfrifwyd bod y costau hyn rhwng £7,000 a £10,000 y flwyddyn.
- Dylai'r trothwy asedau ar gyfer cymorth sy'n destun prawf moddion gael ei godi o £23,250, sef y lefel ar y pryd, i £100,000.
- Dylai pawb sy'n troi'n oedolyn a chanddo angen o ran gofal neu gymorth fod yn gymwys i gael cymorth am ddim ar unwaith, yn hytrach na gorfod bod yn destun prawf modd.
- Dylai budd-daliadau anabledd cyffredinol ar gyfer pobl o bob oedran barhau fel y maent, er y dylid sicrhau eu bod yn fwy cydnaws â'r system ddiwygiedig ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol.

Amcangyfrifodd y Comisiwn y byddai gweithredu'r uchafswm a argymhellir o £35,000 yn costio tua £1.7 biliwn yn 2010-11, gan godi i £2.8 biliwn yn 2010-21.

Ymgorfforodd Llywodraeth y DU rai o gynigion Dilnot yn adrannau 14-17 o *Ddeddf Gofal 2014*; roedd y rhain i fod i gael eu gweithredu yn Lloegr o fis Ebrill 2016. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **na châi'r diwygiadau eu cyflwyno tan 2020**.

Er nad yw'n glir eto pa ffurf y bydd y newidiadau yn eu cymryd pan fyddant (neu hyd yn oed os byddant) yn cael eu cyflwyno yn 2020, roedd Llywodraeth y DU wedi **nodi cynlluniau** yn flaenorol i

gyflwyno cap o £72,000 ar gyfer gwariant ar ofal preswyl ac amhreswyl (heb gynnwys costau byw o ddydd i ddydd) a chynnydd yn y trothwy cyfalaf, y byddai angen talu am gostau gofal llawn uwchben hynny, i £118,000 ar gyfer pobl ag eiddo a £27,000 ar gyfer y rhai heb eiddo.

## Cynigion yng Nghymru ar gyfer talu am ofal

MaeLlywodraethau olynol Cymru wedi gwneud gwaith yn y blynyddoedd diweddar i fynd i'r afael â materion o ran talu am ofal.  Fodd bynnag, mae diwygio yng Nghymru yn dibynnu'n rhannol ar gyfeiriad y polisi yn Lloegr, yn enwedig o ran ei effaith ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, fel budd-daliadau lles.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y bydd y gost o roi newidiadau mawr ar waith yng Nghymru, fel y rheini a argymhellir gan Gomisiwn Dilnot, yn golygu y bydd **angen adnoddau ychwanegol** yn setliad ariannol Cymru.

Yn y Trydydd Cynulliad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2009.  Roedd y Papur Gwyrdd yn ymdrin â phum opsiwn ariannu posibl, gan adlewyrchu'r rheini a amlinellwyd mewn **ymgynghoriad** ar dalu am ofal yn Lloegr a gynhaliwyd gan y Llywodraeth Lafur ar y pryd.  Roedd pob opsiwn yn tybio y byddai unigolion yn talu am eu costau llety eu hunain, ni waeth ble roeddent yn derbyn eu gofal.

Hefyd, sefydlwyd  **Grŵp Cynghori Randdeiliaid ar Dalu am Ofal**  ar gyfer Cymru, i gynghori Llywodraeth Cymru ar opsiynau polisi ar gyfer diwygio'r trefniadau i dalu am ofal.

## Yr ymateb yng Nghymru i adroddiad Dilnot.

**Croesawodd** Llywodraeth Cymru **gyhoeddi adroddiad Dilnot** yn 2011**,** ond mynegodd bryderon ynghylch y gost o roi'r argymhellion ar waith yng Nghymru. Amcangyfrifa y byddai'r gost yn £100 miliwn.  Mewn datganiad ysgrifenedig dilynol nododd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ei hymrwymiad i'r egwyddor o daliadau wedi'u capio, ond mynegodd rai amheuon ynghylch cymhlethdod y model arfaethedig ac am y nifer cymharol gyfyngedig o bobl a fyddai'n elwa ar y cap.

Ym mis Chwefror 2013, rhoddodd **Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ar Dalu am Ofal** Llywodraeth Cymru ei ymateb **i adroddiad Comisiwn Dilnot.**

Awgrymodd y grŵp fod angen gwneud rhagor o waith i wella'r ddealltwriaeth o ariannu, lefelau cyfoeth, y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau gofal yng Nghymru a chostau tebygol cyflwyno trefniadau o fath Dilnot.

Nododd adroddiad y grŵp y byddai bodolaeth yr uchafswm wythnosol o £50 (ar y pryd) am daliadau am ofal amhreswyl yng Nghymru yn creu uchafswm dwbl mewn ffordd, pe byddai cynigion Dilnot yn cael eu rhoi ar waith, ac y dylid ystyried creu uchafswm ar wahân ar daliadau am ofal preswyl yng Nghymru.

Mynegodd y grŵp bryderon ynghylch y costau i awdurdodau lleol o gynnal asesiadau a chadw cofnod o'r taliadau a godir ar unigolion, nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ariannol, lle nad yw llawer ohonynt yn cysylltu ag awdurdodau lleol ar hyn o bryd.  Awgrymodd yr adroddiad hefyd y dylai'r uchafswm cyfalaf fod yn uwch na'r hyn a gynigiwyd gan Dilnot, a hynny er mwyn adlewyrchu gwerthoedd canol eiddo yng Nghymru (tua £164,000 ar adeg ysgrifennu'r adroddiad), ond roedd yn cwestiynu'r dibynadwyedd ar eiddo a chynilion fel mesur o allu i dalu am ofal, ac awgrymodd y dylid ystyried cyfran benodol o'r asedau hyn.

Ym mis Tachwedd 2013, **cadarnhaodd** y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd **ei bwriad**  i sefydlu system ddiwygiedig o dalu am ofal yng Nghymru, ond nid oedd yn ymrwymo ei hun i'r un trefniadau â Lloegr.  **Nododd** fod angen rhagor o fanylion am y cynlluniau ar gyfer Lloegr, gan gynnwys y broses o bennu'r gyllideb a'u heffeithiau ar symiau canlyniadol Barnett a fyddai â goblygiadau ariannu i Gymru.

Parhaodd safbwynt Llywodraeth Cymru'r un fath o dan Mark Drakeford AC fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ym mis Tachwedd 2015 **nododd** y Gweinidog ar y pryd nad oedd yn gallu nodi ffordd ymlaen i Gymru yn absenoldeb cynnydd o ran gweithredu diwygiadau yn Lloegr. Yn benodol, nododd y diffyg eglurder ynghylch unrhyw gyllid canlyniadol i Gymru a allai ddeillio o ddatblygiadau yn Lloegr, ac ar ddiwygio pellach ar fudd-daliadau lles a phensiynau.

## Adroddiadau ymchwil LE Wales ar ddyfodol talu am ofal

Yn 2013, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd waith ymchwil gan LE Wales ar dalu am ofal yng nghyd-destun Cymru, a fyddai'n cynnwys data ar y trefniadau codi tâl cyfredol, cyfansoddiad y boblogaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a thueddiadau mewn incwm a chyfalaf.

Cyhoeddwyd dau adroddiad ymchwil, y **cyntaf ym mis Ebrill 2014.** Darparodd yr adroddiad ddata ar dueddiadau o ran poblogaeth Cymru ac amcanestyniadau o'r galw cyfredol ac yn y dyfodol am wasanaethau gofal. Roedd hefyd yn cynnwys data am wariant ar wasanaethau gofal, ac incwm ohonynt, a data am drefniadau codi tâl ledled Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn edrych ar fodelau amgen ar gyfer talu am ofal gan ystyried y trefniadau mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, Sweden, Japan ac Awstralia.

Roedd ail adroddiad LE Wales, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, yn darparu amcanestyniadau o'r galw am ofal, a'r gost, mewn nifer o sefyllfaoedd dros gyfnod o 25 mlynedd rhwng 2013 a 2037. Roedd yr ail adroddiad hwn hefyd yn nodi effeithiau posibl amrywiaeth o opsiynau polisi ar ofal preswyl a gofal amhreswyl. Trafodwyd pum opsiwn polisi, sef:

– Opsiwn 1: Talu am yr holl gostau gofal drwy wariant y llywodraeth

– Opsiwn 2: Cyfraniad llywodraeth a bennir

– Opsiwn 3: Uchafswm wythnosol ar gyfraniad hunan-ariannwyr

– Opsiwn 4: Codi'r trothwy ar gyfer asedau eiddo

– Opsiwn 5: Cap oes ar daliadau gofal

Roedd yr adroddiad hefyd yn edrych ar rai cynhyrchion ariannol posibl ac opsiynau ariannu gwladwriaethol.

## Adroddiad Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Cymru 2015

Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ar Dalu am Ofal **adroddiad** a oedd yn nodi'r diwygiadau y credai y dylid eu gwneud yng Nghymru yng nghyd-destun y diwygiadau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr a *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Hefyd, ystyriodd y ddau adroddiad a gynhyrchwyd i Lywodraeth Cymru gan LE Wales.

Roedd yr adroddiad yn nodi barn y Grŵp a oedd yn cynnwys y canlynol:

– Yn y tymor hwy, dylid talu am ofal a chymorth drwy yswiriant gwladol, neu drethi, i gronni risg;

– Efallai fod lle i gynhyrchion ariannol dibynadwy, wedi'u teilwra, fel blwydd-daliadau i ariannu gofal;

– Dylid ystyried terfyn cyfalaf uwch - o leiaf £100,000;

– Dylai unigolion mewn gofal preswyl dalu am gostau eu bwyd, llety a chostau byw;

– Roedd y grŵp yn cefnogi'r tâl wythnosol uchaf am ofal amhreswyl ond awgrymwyd y dylai fod yn gymesur â lefelau incwm ac asedau person a dylid ei ddefnyddio i gael gwared ar unrhyw gymhelliant i roi pobl mewn gofal preswyl;

- Dylid cadw'r 'byffer' a'r lwfansau gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd i helpu'r rheini sydd ar incwm is. Dylid ystyried cynnydd gan y byddai hyn yn rhoi gwell amddiffyniad i'r rhai hynny ar incwm isel na'r tâl wythnosol uchaf;
- Dylid cyflwyno cap oes ar gostau gofal ar gyfer gofal preswyl. Dylai'r cap hefyd fod yn seiliedig ar amser i roi sicrwydd o ran y cyfnod o amser y gall person orfod talu costau;
- Ni ddylai unrhyw ddiwygiadau greu cymhellion anffafriol, e.e. o ran y math o ofal y mae unigolyn yn ei dderbyn, ac ni ddylai arwain at feichiau gweinyddol neu waith ychwanegol i ddarparwyr gofal ac awdurdodau lleol; ac
- Ni ddylai gofalwyr fod yn destun ffioedd am y cymorth y maent yn ei gael mewn perthynas â gofalu. Ni ddylid codi tâl ar oedolion iau ag anghenion gofal tymor hir yn yr un ffordd ag oedolion eraill.

Ystyriodd y Grŵp y modelau amgen o ariannu a ddarparwyd yn yr enghreifftiau o wledydd eraill gan adroddiad LE Cymru, ond daeth i'r casgliad na fyddai'r un model unigol yn briodol i Gymru.

# 4. Diwygiadau Llywodraeth Cymru: y pedwar Cynulliad cyntaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyfyngu ar effaith y taliadau am wasanaethau gofal amhreswyl a lleihau'r amrywiaeth mewn trefniadau codi tâl rhwng awdurdodau lleol, ond cyn 2007 dim ond pwerau cyfyngedig oedd ganddi i ddeddfu er mwyn atal awdurdodau lleol rhag codi tâl.

I ddechrau, rhoddodd Llywodraeth Cymru y newidiadau ar waith drwy ***ganllawiau statudol*** i awdurdodau lleol a gyhoeddwyd yn 2007. Effaith y canllawiau hyn oedd pennu llawr na fyddai incymau net defnyddwyr gwasanaethau yn mynd yn is nag ef o ganlyniad i daliadau, diystyru enillion, a sicrhau bod unrhyw derfynau cyfalaf o leiaf yr un mor hael â'r terfynau ar gyfer taliadau am ofal preswyl .

Ym mis Mehefin 2007, ar ôl i ragor o bwerau gael eu datganoli i'r Cynulliad, **ymrwymodd** y Llywodraeth glymblaid yng Nghymru i roi terfyn ar y lefel a'r amrywiaeth o ran taliadau a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl. Yn dilyn hyn, cyflwynodd ***Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010*** fframwaith newydd ar gyfer codi tâl am wasanaethau gofal amhreswyl.

Nododd y rheoliadau a wnaed o dan y *Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010* ofynion penodol ar awdurdodau lleol wrth godi tâl am wasanaethau gofal amhreswyl. Roedd rhai o'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn y canllawiau cynharach. Roeddent yn cynnwys diystyru 35 y cant o incwm defnyddwyr gwasanaeth fel "byffer" a diystyru 10 y cant ychwanegol ar wariant sy'n ymwneud ag anabledd, yn ogystal â phennu uchafswm tâl wythnosol o £50.

Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaethau pellach ar gyfer codi tâl, ac mae *Mesur Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010* wedi cael ei ddiddymu a'i ddarpariaethau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw cyfuno deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol fel y mae'n gymwys yng Nghymru, a sicrhau y gellir rhoi polisïau newydd ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys pwyslais newydd ar wasanaethau ataliol a lles, darpariaeth ar gyfer meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i gael mynediad at wasanaethau, ac asesiadau y gellir eu defnyddio mewn amryw o awdurdodau lleol.

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer codi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol a'r asesiad ariannol o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar waith i unigolion gyfrannu at gost eu gofal.

Er bod y trefniadau newydd yn seiliedig i raddau helaeth ar y fframwaith presennol, mae rhai newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud gan y Ddeddf a'i **rheoliadau** cysylltiedig .

– Mae taliadau am ofal preswyl ac amhreswyl bellach yn destun un fframwaith, er bod y meini prawf ar gyfer asesu ariannol yn wahanol.

– Gall awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau ataliol o dan adran 15 o'r Ddeddf ac am gymorth o dan adran 17 o'r Ddeddf ond dim ond fel tâl cyfradd safonol.

– Fel o'r blaen, gall awdurdodau lleol godi tâl ar ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol. O dan y Ddeddf, gall Taliadau Uniongyrchol bellach gael eu defnyddio ar gyfer gofal preswyl, yn ogystal ag ar gyfer gofal amhreswyl.

– Ni ellir codi tâl am wasanaethau plant, nac am nifer o wasanaethau a chategorïau eraill o ddefnyddwyr gwasanaeth.

# 5. Diwygiadau Llywodraeth Cymru: y Pumed Cynulliad

Yn ei maniffesto ar gyfer etholiad 2016, nododd Llafur Cymru ei bwriad i gynyddu'r terfyn cyfalaf yn y prawf modd a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth godi tâl am ofal preswyl, i £50,000. Ar y pryd, y terfyn oedd £24,000. Hefyd, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno camau i ddiystyru'n llawn Bensiwn Anabledd Rhyfel yn yr asesiad ariannol.

Ym mis Hydref 2016, **cyhoeddodd** Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y byddai Llywodraeth Cymru yn codi'r trothwy cyfalaf i £30,000 ac yn cyflwyno'r camau i ddiystyru'r Pensiwn Anabledd Rhyfel, o fis Ebrill 2017, fel y cam cyntaf i weithredu'r diwygiadau i godi tâl am ofal preswyl. Roedd adroddiad gan LE Cymru ***Research on proposed changes to charging for social care*** a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn edrych ar oblygiadau ariannol y polisïau hyn.

O dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,* mae taliadau am ofal amhreswyl yng Nghymru yn parhau i fod wedi'u capio ac mae'r prawf modd ar gyfer asesu'r taliadau hyn yn cynnwys trothwy cyfalaf o £24,000 ar gyfer cyfraniadau o asedau, er nad yw gwerth yr eiddo'n cael ei gynnwys. Fodd bynnag, fel rhan o'i ddiwygiadau i'r prawf modd ar gyfer ffioedd gofal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cap tâl gofal amhreswyl i £70 yr wythnos o fis Ebrill 2017 ac mae'n bwriadu ei gynyddu ymhellach i £100 yr wythnos erbyn 2021.